# COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

# BWRDD CABINET YR AMGYLCHEDD, ADFYWIO A GWASANAETHAU STRYDLUN

# 20 IONAWR 2023

**Aelodau'r Cabinet:**

Cynghorwyr: W.F.Griffiths, S.Jones (Cadeirydd) a/ac D.M.Peters

**Swyddogion yn bresennol:**

N.Pearce, S.Brennan, D.Griffiths, M.Roberts, N.Chapple, J.Stevens, C.Morris a/ac C.Plowman

---

## 1. PENODI CADEIRYDD

Cytunwyd i benodi'r Cynghorydd S Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

## 2. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Yn dilyn y drafodaeth yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar Wasanaethau'r Amgylchedd, Adfywio a Strydlun, mewn perthynas â Chynllun Gweithredol y Gaeaf, mynegodd y Cadeirydd yr angen i adolygu manylion y cynllun. Nodwyd byddai'r Gwasanaethau Democrataidd yn trafod â swyddogion fel y gellir cynnwys yr adroddiad hwn yn y Flaenraglen Waith.

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. **BLAENRAGLEN WAITH**

Bod y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi.

6. **AMSER CWESTIYNAU CYHOEDDUS**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

7. **GORCHYMYN ADDASU ARFAETHEDIG AR GYFER CILFFORDD RHIF 24 YNG NGHYMUNED CILYBEBYLL**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Sgrinio Integredig:

- Caiff gorchymyn addasu ei wneud o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, i israddio hyd cilffordd rhif 24 a ddangosir ar y cynllun atodedig yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, rhwng pwyntiau A a B, i lwybr troed. Caiff y gorchymyn ei gadarnhau fel un diwrthwynebiad os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiadau iddo.
- Caiff y Map a’r Datganiad Diffiniol eu diwygio i adlewyrchu'r lled o 3 troedfedd i 4 metr rhwng pwyntiau A a C.

**Rheswm dros y penderfyniad**

Gan ystyried y dystiolaeth hanesyddol a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd, roedd digon o sail i newid dynodiad rhan o gilffordd gyhoeddus rhif 24 sy’n cael ei dangos fel A-B ar y cynllun a gynhwysir o fewn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2023.

8. **YR A48 HEOL MARGAM I BORT TALBOT (DIRYMIAD) A (THERFYNAU CYFLYMDER 30MYA) - GORCHYMYN 2022**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r asesiad effaith integredig:

- Caiff y gwrthwynebiadau i’r A48 Heol Margam i Bort Talbot (Dirymiad) a (Therfynau Cyflymder 30MYA) - Gorchymyn 2022 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) eu gwrthod a chaiff y cynllun ei roi ar waith fel y'i hysbysebwyd.
- Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y gorchmynion i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30 mya ar rannau o'r A48 Heol Margam, yr A48 Heol Fasnachol, yr A48 Heol Talbot, yr A48 Ffordd Heilbronn, Heol Dyffryn a Heol yr Abaty o fewn y fwrdeistref wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd trefol ar waith ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2023.

9. **MESURAU ARAFU TRAFFIG AR Y B4434 HEOL NEWYDD, Y CLUN - HYSBYSIAD 2022**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Caiff y gwrthwynebiadau i’r Mesurau Tawelu Traffig yn y B4434, Heol Newydd, Y Clun - Hysbysiad 2022 (fel y nodir ar dudalen 60 yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) eu gwrthod a chaiff y cynllun ei roi ar waith fel y'i hysbysebwyd.
- Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y clustogau arafu arfaethedig er diogelwch y briffordd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2023.

10. **Y B4287 HEOL CIMLA, CIMLA, CASTELL-NEDD (TERFYN CYFLYMDER 30MYA) - GORCHYMYN 2022**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyledus i'r Asesiad Effaith Integredig:

- Caiff y gwrthwynebiadau i'r B4287 Heol Cimla, Cimla, Castell-nedd (terfyn cyflymder 30mya) - Gorchymyn 2022 (fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad a ddosbarthwyd) eu gwrthod a chaiff y cynllun ei roi ar waith fel y'i hysbysebwyd.
- Hysbysir y gwrthwynebwyr o'r penderfyniad yn unol â hynny.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Roedd angen y Gorchmynion i gynnal y terfyn cyflymder presennol o 30mya ar rannau o'r B4287 Heol Cimla, Cimla, Castell-nedd o fewn y fwrdeistref wedi i Lywodraeth Cymru basio deddfwriaeth i roi terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd trefol ar waith ledled Cymru er diogelwch ffyrdd.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2023.

11. **RHESTR O GONTRACTWYR CYMERADWY**

**Penderfyniad:**

Ar ôl rhoi sylw dyladwy i'r Asesiad Effaith Integredig, caiff y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ei newid fel a ganlyn:-

Ychwanegir y cwmni at y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy

Mae'r cwmni canlynol wedi gwneud cais i gael ei gynnwys ar y rhestr ac wedi pasio'r asesiadau angenrheidiol:-

| **Cwmni** | **Categori** |
|---|---|
| Rockall Safety Ltd (R042) | 111 |

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod y Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy yn gyfoes, a chyhyd ag y bo modd, sicrhau proses gaffael gystadleuol.

Caiff yr argymhellion hyn eu mabwysiadu at ddiben darparu Rhestr o Gontractwyr Cymeradwy ar gyfer gwahoddiad i dendro yn y categori perthnasol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Bydd y penderfyniad yn cael ei roi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn sy'n dod i ben am 9am ddydd Mawrth, 24 Ionawr 2023.

12. **ASTUDIAETH GENEDLAETHOL ARCHWILIO CYMRU - ADOLYGIAD GWAELODLIN DATGARBONEIDDIO SERO NET**

**Penderfyniad:**

Nodir yr adroddiad.

13. **EITEMAU BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

14. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD - GWAHARDD Y CYHOEDD**

**Penderfyniad:**

Gwaherddir y cyhoedd o'r cyfarfod wrth i’r eitem fusnes ganlynol gael ei hystyried ar y sail ei bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff 14 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007 yn amodol ar gymhwyso Prawf Budd y Cyhoedd (lle bo'n briodol.

15. **TROSGLWYDDO TIR AC ADEILADU UNED FASNACHOL YN IARD BURROWS - DIWEDDARIAD**

**Penderfyniad:**

Nodir yr adroddiad.

**CADEIRYDD**